**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

17 Gorffennaf 2019

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (Ymadael â'r UE) 2019**

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â'r rheoliadau a enwir uchod.

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch cwestiwn pam mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â gwneud ei rheoliadau ei hun yn y maes polisi hwn a pham mae angen i'r Gweinidog Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol gytuno i gais gan Awdurdod Cymreig.

Mae'r Rheoliadau yr UE ar Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn nodi mai amcan Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yw hwyluso a hyrwyddo cydweithredu tiriogaethol, felly gall Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd weithredu ar sail nad yw o reidrwydd yn gyfan gwbl economaidd ei natur. Pan gaiff Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd eu sefydlu, maent yn endid cyfreithiol. Er bod hawl gan drydedd wlad fod yn aelod o Grŵp Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, rhaid i'r swyddfa gofrestredig fod mewn Aelod-wladwriaeth yr UE ac ystyrir y Grŵp fel endid o'r aelod-wladwriaeth honno a chaiff ei lywodraethu'n rhannol gan gyfraith yr aelod-wladwriaeth honno.
Nid yw'n ofynnol cael cytundeb rhyngwladol ymlaen llaw wedi'i lofnodi a'i gymeradwyo gan seneddau rhyngwladol er mwyn i Aelod-wladwriaeth yr UE gymryd rhan mewn Grŵp Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Fodd bynnag, pan fydd trydedd wlad yn cymryd rhan mewn Grŵp Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, gellir cael cytundeb rhwng yr Aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan a'r drydedd wlad honno. Rydym yn ystyried, felly, fod y mater a gedwir yn ôl o dan yr Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 10 (1) a (2) sy'n cyfeirio at y berthynas â thiriogaethau y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig yn golygu, pan fo unrhyw awdurdod yn y DU yn ceisio ymuno â Grŵp Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd mewn Aelod-wladwriaeth yr UE, byddai angen penderfyniad cyffredinol gan yr Ysgrifennydd Gwladol oherwydd ni fyddai gan Weinidogion Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i lunio'r fframwaith cyffredinol ar gyfer y cytundeb hwn, a hynny er bod ganddynt y pwerau gwario/cyllido o bosibl. Er enghraifft, er mwyn cymryd rhan yn y trefniant i greu fframwaith Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, mae'r mater a gedwir yn cael ei chadw o dan yr atodlen ddiwygiedig 7A, fel y soniwyd uchod. Wrth symud ymlaen, er y gallai Gweinidogion Cymru gymryd rhan wedyn o dan y fframwaith, byddai unrhyw

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

newidiadau yn gofyn am fewnbwn Llywodraeth y DU. Yna, mae'n dilyn na fyddai cymhwysedd Gweinidogion Cymru yn ddigon eang oherwydd, er bod y pwerau'n ddigonol i ganiatáu cymryd rhan mewn fframwaith Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, byddai hyn yn wir dim ond ar ôl i Lywodraeth y DU sefydlu'r fframwaith Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Gobeithio y bydd yr eglurhad uchod yn ddigonol

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd